

## Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**Mehefin 7fed, 2016**

**Presennol:** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Heledd Jones (is gadeirydd), Huw Antur, Dewi Jones, , Karl Jones, Rhodri Jones, Catrin Roberts, Huw P Roberts, Alan Jones Evans, (Cyngorydd Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Ymddiheuriadau:** Arwel Lloyd Jones, Alwyn Roberts, Ian Trow

- 1584 Croesawyd pawb a llongyfarchwyd Pwyllgor y Neuadd Bentref ar y gwaith ardderchog o uwchraddio'r Ystafell Bwyllgor.
- 1585 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
- 1586 Nid oedd datganiadau buddiant.
- 1587 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Mai 3ydd a diolchwyd i Huw Antur am eu paratoi.
- 1588 Materion y Clerc:
- i. 1577 Cafwyd ymateb i bryderon y Cyngor am y drafnidiaeth wrth y Neuadd Bentref gan swyddogion Gwynedd a oedd yn cynnig mesur cyflymdra. Cytunwyd i anfon eto i fynegi fod prysurdeb ar y ffordd mor beryglus â'r cyflymdra, a bod angen mesurau pendant i wella diogelwch.
  - ii. 1581 Derbyniwyd ymateb gan swyddogion Gwynedd i'r gŵyn am y bin baw cŵn ac anogir pawb sydd yn sylwi ar broblem i gysylltu'n **gwbl gyfrinachol** trwy ffonio Galw Gwynedd **01766 771 000**.
- 1589 **Adroddiad y Cyngorydd Sir:** Dywedodd Alan Jones Evans ei fod wedi holi Cyfoeth Naturiol Cymru am ganlyniad eu hasesiad o lif yr afon wrth bont Lliw, a'i fod wedi cynnwys copïau at yr Aelod Seneddol a'r Aelod Cynulliad. Tynnodd sylw at y cyfle i wneud cais am grantiau o Gist Cymunedol Gwynedd. Addawodd i barhau i holi am benderfyniad ar finiau halen yng nghefn gwlad. Dywedodd fod y toriadau ariannol yn golygu y bydd gwair ar ochr ffordd yn cael ei dorri'n llai aml eleni.
- 1590 **Adroddiad o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru:** Dywedodd Huw P Roberts ei fod wedi cynrychioli'r Cyngor yng Nghyfarfod Blyneddol pwyllgor ardal Un Llais Cymru. Roedd mater y biniau halen wedi ei drafod yno yn ogystal â'r oedi i'r cynlluniau i ail-drefnu Llywodraeth Lleol.
- 1591 **Y Noson Goffi** – cytunwyd i'w roi ar Agenda'r cyfarfod nesaf
- 1592 **Materion Eiddo'r Cyngor:**

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

- i. Cadarnhawyd y gwaith ychwanegol ar loches bws Peniel.
- ii. Cytunwyd i drafod cyflwr hysbyswrdd y Cyngor yn y cyfarfod nesaf.

### 1593 Materion ariannol –

- i. Cadarnhawyd cywirdeb y cyfrifon i BDO wedi eu harchwilio gan John Roberts.
- ii. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol.
- iii. Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis: trydan y toiledau; treth dŵr y toiledau; *valve* newydd i'r toiledau; hyfforddiant i un Cynghorydd a'r Swyddog Ariannol; ail doriad gwair y fynwent.
- iv. Derbyniwyd gwybodaeth nad ydyw'r Rheoliadau Ariannol newydd wedi dod i law hyd yn hyn ar gyfer eu hystyried gan yr is-bwyllgor cyllid.
- v. Derbyniwyd gwybodaeth am Gyfraddau Cyflog Cenedlaethol a chytunwyd i'r rhain gael eu hystyried gan yr is-bwyllgor cyllid.
- vi. Cytunodd Dewi Jones i chwilio am y cwmnïau sy'n cynnig y raddfa orau ar gyfer trydan yn y toiledau; hwn i'w benderfynu arno'n derfynol yn y cyfarfod nesaf.

### 1594 Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned -

- Rhoddwyd ystyriaeth i gŵyn gan aelodau'r cyhoedd i lefel y drafnidiaeth yn Tŷ'n Ddôl dros Wyl y Banc; ystyriwyd anfon llythyr i ofyn am gydweithio gyda thrigolion a nodi fod gweithgareddau traddodiadol yn digwydd yn y pentref ar yr un adeg. Cytunwyd i holi ymhellach cyn anfon llythyr.
- Cytunwyd yn llwyr gyda chais aelod o'r cyhoedd i fynegi gwerthfawrogiad o'r gwasanaeth yn y feddygfa leol. Cytunwyd i ysgrifennu fel Cyngor unigol at staff y feddygfa. Cytunwyd hefyd i annog Cynghorau eraill i wneud yr un fath a chyhoeddi'r llythyr yn Y Cyfnod.
- Derbyniwyd sylw am y diffyg gwelediad wrth droi i'r A494 o'r Parc wrth Wern Goch. Adroddodd y Cynghorydd Sir ei fod wedi tynnu sylw Adran Trafnidiaeth y Llywodraeth at y mater ac y bydd asesiad o'r safle yn digwydd yn fuan.
- Cytunwyd i gloi gatiau maes parcio'r fynwent dros nos adeg ymweliad yr Annibynwyr i'r ardal. Bydd nodyn yn egluro hyn yn cael ei osod ar y ceir sy'n parcio'n rheolaidd, ac yn gofyn hefyd am beidio parcio wrth railings y fynwent.

**1595 Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr a soniodd am yr anhawster o gymryd cyfrifoldeb dros wasanaethau os nad oes incwm yn cael ei ddarparu ar gyfer gwneud hynny. Adroddwyd fod toriad o 20% yn y cyllid ar gyfer cynnal llwybrau eleni, ac felly fe fydd y gwasanaeth 20% yn llai. Cafwyd adroddiad ar drefniadaeth ffair Y Bala.

# Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

## Cadeirydd: Beryl Hughes Griffiths

---

### 1596 Gohebiaeth:

- 1. Parc Cenedlaethol Eryri:** derbyniwyd gwybodaeth am ddyddiadau cyfarfod pwyllgorau Parc Cenedlaethol Eryri.

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd a roddwyd i newidiadau yn 2 Cae'r Aran.

Ystyriwyd gwahoddiad i fynychu Noson Agored yng Nghoed y Brenin ar 18/7/16, ond nid chafwyd cynrychiolwyr i fynychu gan fod y dyddiad yn gwrthdaro gyda diwrnod cyntaf y Sioe Genedlaethol sydd yn cael ei noddi eleni gan Sir Feirionnydd.

- 2 Gwynedd:** nodwyd y gwahoddiad i gynnig sylwadau ar ardaloedd cymunedol Gwynedd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus; ymatebodd y Clerc cyn y dyddiad cau.

Derbyniwyd gwybodaeth am y Cofrestr Tai Gyffredin a'r fflat wag Rhif 16 Maesypany.

Derbyniwyd Rhaglen Waith mis Mai a Mehefin.

- 3 Erail:**

Ystyriwyd cais am sylwadau ar gau'r A494 rhwng 9.00 a 13.00 ar 4/9/16 ar gyfer y treiathlon. Cydnabuwyd fod yr achlysur yn dwyn enw i'r ardal ac elw i rai. Ond derbyniwyd gwybodaeth yn y gorffennol am yr effaith andwyol ar fusnesau, ar ryddid trigolion a thwristiaid i deithio, ar ganslo Ysgol Sul ac effaith ar Wasanaethau Crefyddol, ac at y perygl o deithio ar hyd ffordd Llangywer. Cytunwyd i ymuno gyda Chyngor Tref Y Bala pan fyddant yn cynnal cyfarfod gyda'r trefnydd newydd.

Ystyriwyd cais am sylwadau ar y cyfyngiad cyflymder 20mya wrth Ysgol O M Edwrad a chytunwyd i fynegi bod yr arwyddion newydd wedi arafu rhywfaint ar y traffic ar hyd yr A494. Ond mae angen sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn, ac mae angen ymestyn y cyfyngiad mewn i'r pentref er mwyn cysondeb a bod yn effeithiol. Gan fod y Clwb Brechwast yn cychwyn am 8.00 y bore yn yr Ysgol, dylid newid amser yr 20mya i gyfarfod a hyn, a hefyd ymestyn y cyfnod diwedd y dydd at 4.00 pryd y daw rhai tacsis a bws Ysgol y Berwyn i'r safle.

Enwebwyd Heledd Jones a Dewi Jones yn gynrychiolwyr yng Nghyfarfod Blynnyddol y Neuadd Bentref 27/6/16.

*Amser gorffen: 9.30*